



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfeiriad e-bost
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health and Social Services Group

Date / Dyddiad: 20 Hydref 2020

Annwyl Gyfeillion

YNGHYLCH: Cyfnod Atal Byr Cenedlaethol COVID-19 Cymru

Heddiw, cyhoeddodd Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, gyfyngiadau eraill i leihau lledaeniad y coronafeirws a lleddfu'r pwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol drwy 'gyfnod atal byr' cenedlaethol a fydd yn dechrau am 18:00 ddydd Gwener, 23 Hydref 2020 ac yn para 2 wythnos.

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau y gall cleifion, yn ôl yr wybodaeth yn y cyhoeddiad, adael eu cartrefi i ddefnyddio gwasanaethau iechyd lleol, sy'n cynnwys gofal llygaid. Dylai pob practis aros ar agor i ddarparu gwasanaethau fel rhan o'r canllawiau cyfnod adfer Oren a gyhoeddwyd ar 30 Gorffennaf a 7 Awst 2020.

Mae'n bwysig bod cleifion yn parhau i ddefnyddio gwasanaethu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ddiogel, felly, hoffwn atgoffa holl bractisau optometrïg Cymru o'r wybodaeth ganlynol.

- Wrth flaenoriaethu a threfnu apwyntiadau, dylid parhau i bwysu a mesur yr anghenion clinigol a'r symptomau a ddangosir o gymharu â'r risg y gallai'r claf golli ei olwg neu gael niwed. Dylid trefnu apwyntiadau rheolaidd, yn unol â'r drefn flaenoriaethu, os oes digon o gapasiti i wneud hynny, ar ôl i'r holl apwyntiadau brys neu hanfodol gael eu trefnu
- Dylai practisau gynnig gwasanaeth adolygu dros y ffôn neu dros fideo i gleifion yn y lle cyntaf, i weld beth yw statws y claf o ran COVID-19 a lefel y gofal llygaid sydd ei angen
- Dylai practisau barhau i ddilyn canllawiau Coleg yr Optometryddion ar reoli heintiau, cadw pellter cymdeithasol a chyfarpar diogelu personol.

Ers dechrau'r flwyddyn, mae COVID-19 wedi amharu ar bob lefel o'r gymdeithas, gyda phob sector yn wynebu anawsterau. Hoffwn ddiolch i'r holl weithwyr proffesiynol gofal llygaid am eich ymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau gofal llygaid ac am eich cefnogaeth broffesiynol wrth gadw at y canllawiau a gyhoeddwyd i helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Yn gywir



David O'Sullivan

Y Prif Gynghorydd Optometrig / Chief Optometric Adviser
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol / Office of the Chief Medical Officer
Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd / Directorate of Primary Care and Health
Science
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Department for Health and Social
Services
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ / Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.